

Y Diweddraf am Ganolfan Ddiwylliant Conwy Mawrth 2020



COVID19: Neges Pwysig

Yn unol â chyngor gan y gwasanaethau ehangach Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r Llywodraeth mewn perthynas â lledaeniad COVID-19, bydd rhaid i Ganolfan Ddiwylliant Conwy gau dros dro er mwyn cefnogi'r hunan ynysu. Bydd hi dal yn bosib i chi gysylltu â ni dros e-bost, diwylliant.culture@conwy.gov.uk ac ar hyn o bryd mi wnawn ein gorau i'ch cynorthwyo. Efallai bydd ein hamseroedd ateb yn newid os yw staff yn cael eu had-leoli i wasanaethau sydd â blaenoriaeth. Byddwn yn eich diweddaru cyn gynted â phosib os bydd unrhyw beth yn newid a gobeithiwn y gallwn agor yn y dyfodol agos.

Y diweddraf am yr adeilad ac arddangosfeydd:

Fe agorodd y Ganolfan Ddiwylliant ar 9 Rhagfyr 2019 gyda lansiad ysgafn anffurfiol, ond mae cynlluniau i gynnal seremoni swyddogol ym mis Mai 2020. Mae'r gwaith tirlunio bron â dod i ben ar y safle, ac fe osodwyd yr Ardd Synhwyrdd fis diwethaf. Mae llwybr rhwbio pres yn cyd-fynd â'r ardd hefyd, gyda deuddeng postyn wedi'u lleoli ar dir y Ganolfan

Cysylltwch â ni:

Ffôn: 01492 576089

E-bost:

llyfrgell.conwy@conwy.gov.uk neu
diwylliant.culture@conwy.gov.uk

Contact us:

Phone: 01492 576089

Email:

conwy.library@conwy.gov.uk or
diwylliant.culture@conwy.gov.uk:

Ariennir y Ganolfan Ddiwylliant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Llywodraeth Cymru (yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd), Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru, Cronfa Cymunedol Gwynt y Môr mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy, a Chyngor Celfyddydau Cymru.

The Culture Centre is funded by the National Lottery Heritage Fund, Conwy County Borough Council, the Welsh Government (Museums, Archives, Libraries Division), the Welsh Government Rural Development Programme 2014-2020, which is funded by the European Agricultural Fund for Rural Development and the Welsh Government, Gwynt y Môr Community Fund in partnership with Conwy Arts Trust, and Arts Council Wales.

Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County



Ddiwylliant. Wrth i'r gwanwyn agosáu, rydym ni'n edrych ymlaen at ddatblygu'r ardal yma o safle'r Ganolfan Ddiwylliant, ynghyd â'r grŵp lleol Incredible Edible a'u grŵp talentog o wirfoddolwyr.

Ers i ni agor ein drysau, mae'r ymateb wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol – ers 9 Rhagfyr mae dros 9,300 o bobl wedi dod drwy'r drysau i ymweld â'r Ganolfan newydd. Fe hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r prosiect, boed chi'n ddilynwr ffyddlon neu'n rhai newydd, diolch i chi am eich cefnogaeth a'ch nawdd barhaol. Gobeithio y bydd 2020 a thu hwnt yn brysur!



Arddangosfa Pobl Conwy yn agor i'r cyhoedd:

Ar 9 Rhagfyr, fe agorwyd prif arddangosfa'r Ganolfan Ddiwylliant, Pobl Conwy, i'r cyhoedd. Cynhaliwyd agoriad bychan i ddangos y gwaith ac i ddiolch i gyfranogwyr am gymryd rhan yn y prosiect ynghyd â'r ffotograffydd Graham Hemborough am gynhyrchu portread hyfryd ar gyfer yr arddangosfa, Cerddoriaeth a Ffilm Cymunedol TAPE am drefnu darnau iaith a gyfieithwyd ar gyfer pawb a gafodd eu cyfweld, a HistoryPoints am wneud y darnau sain yn hygyrch trwy ddulliau digidol.

Bydd yr arddangosfa ar agor tan fis Gorffennaf 2020, felly cofiwch alw draw i ymweld!

Canolfan Ddiwylliant **Conwy** Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County

Archifdy Conwy:



Ddiwedd mis Chwefror, cafodd casgliadau Archifdy ac Amgueddfa Sir Conwy eu symud i'r storfeydd dan ddaear yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy. Bydd y storfeydd pwrpasol hyn yn sicrhau y gofali'r am y casgliadau er mwyn i'r cenedlaethau nesaf eu mwynhau. Distyllfa Penderyn sydd bellach yn berchen ar safle'r Hen Ysgol Fwrdd, ac maent wrthi'n ailddatblygu'r safle i'w ddefnyddio fel distyllfa a rennir a gofod i ddehongli treftadaeth o ran hanes hen safle'r ysgol.

Mae tîm Archifdy Conwy wrthi'n ymgartrefu yn y Ganolfan Ddiwylliant, ac maent yn brysur yn dadbacio a pharatoi ar gyfer yr agoriad. Diolch i chi am eich amynedd ac mae tîm yr Archifdy yn edrych ymlaen at eich gweld yno ar ôl iddynt agor yn fuan iawn!

Gweithgareddau yn y Ganolfan:

Mae amrywiaeth o weithgareddau wedi cael eu cynnal yn y Gofod Cymunedol ers i'r drysau agor. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdy 'Celf a'r Meddwl', rhaglen 10 wythnos o hyd sy'n cael ei gynnal gan Ticky Lowe i breswylwyr sy'n byw gyda, ac yn dioddef straen cymedrol, iselder a gor-bryder. Mae gweithgareddau lles eraill yn cynnwys gweithdy celf i aelodau o'r gymuned fyddar, yn ogystal â sesiynau ioga.



Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County

Fe hoffem ddiolch i bawb sydd wedi helpu i sefydlu a chymryd rhan yn y gweithgareddau hyn gyda ni hyd yn hyn. Cadwch lygad am unrhyw weithgareddau, gweithdai a sesiynau blasu a fydd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan Ddiwylliant, trwy ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol: cadwch lygad am Diwylliant Conwy Culture ar Facebook neu dilynwch ni ar Twitter drwy chwilio am @DiwylliantConwy.



Casglu Straeon:

Ar 5 Chwefror, cynhaliodd Huw a Lal Davies o Davies Community Films sgriniad o'u prosiect ffilm cymunedol cyffrous – Casglu Straeon. Yn rhan o'r prosiect hanes ar lafar, clywyd straeon preswylwyr sy'n byw yn nhref Conwy a'r cyffiniau trwy ystod o fformatau ffilm fer trwy naratif person cyntaf. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr gan y cyhoedd, ac roedd dros 56 o bobl yn bresennol.

Canolfan Ddiwylliant **Conwy** Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County

Estyn Allan:

Mae rhaglen estyn allan cymunedol cryf wedi bod yn ffocws i ni o'r dechrau cyntaf. Mae ein gwaith partneriaeth gyda CultureHubs wedi arwain at ymgysylltu â'r gymuned mewn ardaloedd gwledig megis Cerrigydrudion, Penmachno a Llansannan gan ddefnyddio treftadaeth fel ffynhonnell o ysbrydoliaeth greadigol ar gyfer ystod o weithgareddau. Mae ymgysylltu gyda grwpiau hanes lleol a rhanbarthol megis Grwpiau Hanes Deganwy ac Aberconwy wedi bod yn gadarnhaol iawn, gydag aelodau yn awyddus i ymweld â'r Ganolfan dros y misoedd nesaf. Fe hoffem ddiolch i bawb sydd wedi ein croesawu i'w cymunedau ac edrychwn mlaen at weithio gyda nhw yn y dyfodol agos.

Sesiynau blasu:



Ers ein newyddlen ddiwethaf, mae tîm y Ganolfan Ddiwylliant wedi bod yn brysur yn rhoi rhaglen o weithgareddau hwyliog sy'n ennyn diddordeb at ei gilydd er mwyn hyrwyddo prosiect y Ganolfan Ddiwylliant i'r byd ehangach. Hyd heddiw, mae'r prosiect wedi cyflwyno 192 o sesiynau blasu rhagorol, ac mae 8,487 o unigolion wedi cymryd rhan! Yn rhan o'r prosiect, rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o grwpiau mewn ysgolion, cartrefi preswyl, grwpiau cymunedol a llawer mwy!

Canolfan Ddiwylliant **Conwy** Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County

Hoffem estyn ein diolch i’n partneriaid, ein artistiaid preswyl ac i bawb sydd wedi dod i’n gweld a’n cefnogi ni. Byddwn yn cael llawer mwy o sesiynau yn y dyfodol.

Grŵp y Gymraeg:



Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers i grŵp y Gymraeg yng Nghonwy gyfarfod yn ffurfiol yn y dref, ac mae’r grŵp wedi parhau i dyfu ers hynny. Ers mis Chwefror eleni, mae’r grŵp wedi cyhoeddi sesiwn ychwanegol bob mis er mwyn i ddysgwyr Cymraeg ymarfer eu Cymraeg llafar. Mae’r grŵp yn cyfarfod yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy ar y 2^{il} a 4^{ydd} dydd lau bob mis – os oes gennych chi, neu unrhyw un

rydych chi’n ei adnabod ddiddordeb, mae croeso i chi alw heibio i ddweud helo!



Codi ymwybyddiaeth drwy gyfryngau cymdeithasol:
Mae 828 o bobl bellach yn hoffi ein tudalen (Diwylliant Conwy Culture) ar Facebook, ac mae 890 o bobl yn dilyn y newyddion diweddaraf a’r hyn sy’n digwydd yn y Ganolfan Ddiwylliant. Diolch yn fawr iawn i’n holl ddilynwyr!

Canolfan Ddiwylliant **Conwy** Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County

